Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Y Gyfarwyddiaeth Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| **ADRAN:** | Ysgol |
| **SWYDD:** | Swyddog Cymorth Dysgu |
| **GRADD Y SWYDD:** | GR06 |
| **YN GYFRIFOL I:** | Y Pennaeth |

---

**DIBEN Y SWYDD:**

Dan gyfarwyddyd staff addysgu/ perthnasol, cynnal amrywiaeth o raglenni cymorth i alluogi myfyrwyr/disgyblion i ddysgu a chynorthwyo'r athro i reoli disgyblion yn yr amgylchedd dysgu

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Goruchwylio disgyblion yn ystod a rhwng y gwersi gan ddarparu gofal penodol i'r disgyblion hynny ag anghenion arbennig / ychwanegol, gan sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu.

- Cynnal gweithgareddau dysgu strwythuredig y cytunwyd arnynt, gan eu haddasu neu eu diwygio er mwyn galluogi'r disgyblion i ddysgu.

- Cyfrannu at y gwaith o gynllunio a gwerthuso rhaglenni dysgu.

- Creu a chynnal amgylchedd pwrpasol, trefnus a chefnogol.

- Monitro sut y mae'r disgyblion yn ymateb i'r dysgu, a rhoi adborth i athrawon ynglŷn â chyflawniad, datblygiad, problemau ac ati.

- Cynorthwyo i oruchwylio disgyblion y tu allan i amseroedd gwersi gan gynnwys amser cinio ac amser chwarae.

- Cynorthwyo i sicrhau y caiff y disgyblion i gyd eu cynnwys a'u derbyn .

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**

Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**

Sicrhau bod yr holl weithgareddau yn cael eu gweithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**

Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai.  Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaethau IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**

Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch graddfa.

**Gwiriad Cofnodion Troseddol**

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Manyleb Person

## Swyddog Cymorth Dysgu

Mae'r priodweddau canlynol yn cynrychioli'r amrywiaeth o sgiliau, galluoedd a phrofiadau ayb sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i ymgeiswyr feddu ar y priodweddau y nodwyd eu bod yn hanfodol (Ydy)

| Priodoleddau | Gofynion | Danfodol | Dull Gwerthuso/Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • NVQ level 3 ar gyfer Cynorthwywyr Dysgu neu gyfwerth, neu brofiad y gellir ei ddangos.<br>• Hyfforddiant ym maes Cymorth Cyntaf (neu barodrwydd i'w ddilyn)<br>• Wedi cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg | Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Tystysgrifau Cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Profiad o weithio gyda phlant neu ofalu amdanynt.<br>• Dealltwriaeth gyffredinol o'r cwricwlwm cenedlaethol / cyfnod sylfaen.<br>• Dealltwriaeth sylfaenol o ddatblygiad plant a'r modd y maent yn dysgu. | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a thystlythyrau |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Sgiliau llythrennedd a rhifedd da.<br>• Gallu defnyddio TGCh yn effeithiol i gynorthwyo disgyblion i ddysgu.<br>• Gallu datblygu cynlluniau dysgu a monitro datblygiad, gan gyflwyno gwybodaeth yn eglur a chryno.<br>• Gallu cyd-dynnu'n dda â phlant ac oedolion.<br>• Gallu gweithio'n adeiladol fel rhan o dîm. | | Cyfweliad, ffurflen gais a thystlythyrau |

| Priodoleddau | Gofynion | Danfodol | Dull Gwerthuso/Profi |
|---|---|---|---|
| | • Cwrtais wrth ymdrin â staff, disgyblion, rhieni a gofalwyr.<br><br>• Rheoli amser yn effeithiol. | | |